

Hysbysiad Preifatrwydd

Cefnogi'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth

1. Cefndir

Yng Nghymru, mae'n ofyniad statudol i unrhyw un sy'n gwasanaethu fel pennaeth feddu ar y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP).

Rydym am ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o benaethiaid i arwain ein hysgolion drwy ein hagenda diwygio addysg er mwyn ysbrydoli ein plant a'n pobl ifanc. Mae swydd pennaeth yn un heriol ond gwerth chweil, a'n nod yw sicrhau bod pob darpar bennaeth yn cael eu cefnogi a'u datblygu wrth iddynt gymryd y cam nesaf yn eu gyrfaedd.

Nod rhaglen newydd CPCP yw cefnogi ac arwain unigolion er mwyn eu paratoi i gymryd y cam tuag at fod yn bennaeth. Bydd angen i ddarpar gyfranogwyr lenwi ffurflen gais a fydd, os yn llwyddiannus, yn arwain at wahoddiad i gyfweiliad.

O fis Medi 2025 ymlaen, bydd y CPCP yn cael ei gyflwyno gan Dysgu.

2. Rheolwr

Dysgu ("ni", "ein") yw'r rheolwr data ar gyfer data personol a gesglir yn ystod y broses ymgeisio.

3. Pa ddata personol sydd gennym a ble rydym yn cael y wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy gyfeirio at ddynodwr'.

Fel rhan o'r broses ymgeisio, gofynnir i ymgeiswyr ddarparu data personol megis enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, teitl swydd a dyddiad geni.

4. Sail bwrpasol a chyfreithiol

Rydym yn prosesu eich manylion cyswllt i:

- Y Broses Ymgeisio - Bydd data personol a gyflenwir yn cael ei ddefnyddio i gysylltu â chi mewn perthynas â'ch cais. Bydd data personol fel enw a manylion cyswllt yn cael ei dynnu o geisiadau cyn ei rannu gyda phanel didoli.
- Gweinyddu'r rhaglen - (e.e. cyfathrebu, amserlennu, cefnogaeth)

- Bydd data personol ymgeiswyr llwyddiannus yn cael ei rannu gyda'r Cyngor Addysg – mae hyn er mwyn sicrhau bod pob cyfranogwr wedi cofrestru i addysgu yng Nghymru, bod ganddynt statws athro cymwys (SAC) a bod ganddynt fynediad addas at y pasbort dysgu proffesiynol (PDP).
- Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu rhannu gydag ymgeiswyr llwyddiannus eraill a Hyfforddwyr Arweinyddiaeth.
- Bydd eich manylion personol yn cael eu rhannu gyda'ch awdurdod lleol neu gyflogwr i'w hysbysu eich bod wedi'ch derbyn ar y rhaglen ac er mwyn prosesu taliadau.
 - Estyn
 - Llywodraeth Cymru
- Dibenion ystadegol ac ymchwil

5. Cadw Data

Rydym yn cadw eich data am hyd y rhaglen a'r gwerthusiad (amcangyfrifir bod hyn yn 3 blynedd) ac ar ôl hynny caiff ei ddileu'n ddiogel neu ei ddienw.

6. Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae gwybodaeth personol a ddarperir i Dysgu bob amser yn cael ei chadw ar weinyddion diogel, bydd mynediad i'r cymwysiadau wedi'i gyfyngu i aelodau'r tîm polisi uniongyrchol ac aelodau'r panel didoli/cyfweld. Bydd y data personol a ddarparwch yn cael ei storio mewn ffolder gyfyngedig.

7. Eich Hawliau

O dan GDPR, mae gennych yr hawl i:

- Gofyn am fynediad at eich data personol
- Gofyn am gywiriad neu ddileu eich data
- Gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu
- Tynnu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg (heb effeithio ar gyfreithlondeb prosesu blaenorol)
- Cyflwyno cwyn i awdurdod goruchwyllo (e.e., ICO yn y DU)



Grymuso Addysgwyr | Empowering Educators

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw: Wycliffe House,
Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123
1113. Gwefan: www.ico.org.uk

8. Tynnu Caniatâd yn Ôl a Chanlyniadau

Os nad ydych yn cydsynio i rannu eich data gyda'r naill sefydliad na'r llall, byddwch yn dal i allu gwneud cais ond efallai na fyddwch yn gallu cymryd rhan os yw'r partneriaethau hyn yn hanfodol. Gallwch dynnu caniatâd yn ôl unrhyw bryd drwy gysylltu â ni.

9. Cysylltu â Chwynion

Ar gyfer pryderon neu gwynion: - Cysylltwch â'n [DPO / Arweinydd Diogelu Data, Gareth Key] yn [gareth.key@dysgu.llyw.cymru] - Neu codwch y mater gyda'ch awdurdod diogelu data lleol (e.e., UK ICO)

